



Adnoddau Cefnogi

Techniquet
Stryd Stuart
Caerdydd
CF10 5BW

F: 029 20 475 475
www.techniquet.org



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Crynodeb o'r Sioe

Mae Delyth a Dilwyn yn campio yn y coed ond maent wedi crwydro oddi ar y llwybr ac wedi mynd ar goll. Pwy fyddant yn ei gyfarfod yn y coed? Pa anifeiliaid sy'n byw yno? Pa rai sy'n dod allan yn y nos? Pwy all eu helpu i ganfod eu ffordd yn ôl i'w gwersyll?

Bydd y disgyblion yn archwilio pethau byw, y nos a'r dydd, a goleuni a thywyllwch ym mhlantariwm Techniquet. Mae disgyblion yn ymchwilio drwy ddatrys problemau a drwy ddefnyddio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth am y byd. Mae'r sioe hon yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ganfod atebion i ddatrys heriau ac i helpu Delyth a Dilwyn ganfod ffordd allan o'r goedwig aychwelyd i'w gwersyll.




Hawlfraint

Gall athrawon atgynhyrchu'r deunyddiau canlynol heb dorri hawlfraint, cyn belled y gwneir copïau ar gyfer defnydd yn eu hysgolion eu hunain. Rhaid cael caniatâd Techniquet cyn atgynhyrchu'r deunyddiau hyn at unrhyw bwrpas arall.

Cydnabyddiaethau

Diolch arbennig i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth. Diolch i ddisgyblion ac athrawon Ysgol Gynradd Llanedeyrn, Ysgol Gynradd Lodge Hill ac Ysgol Gynradd Parc Ninian am eu cefnogaeth a'u syniadau.

Hwyl gyda Lluniau




Ym mhob un o'r ffotograffau canlynol, mae Delyth yn gofyn cwestiwn sy'n gysylltiedig â'r gweithdy.

- Rhowch sialens i'r disgyblion ateb y cwestiynau.
- Gofynnwch i'r disgyblion a ydynt yn cofio'r gwrthrych a sut y'i defnyddiwyd yn y gweithdy. Beth maent yn ei gofio amdano?
- Beth wnaethant ddarganfod yn y gweithdy?
- Gall y disgyblion wneud llun o'u hoff ran o'r gweithdy. Gallant ychwanegu swigod meddwl, fel y rhai yn y ffotograff o Delyth, i egluro pam eu bod yn ei hoffi.

Gall disgyblion e-bostio eu sylwadau a'u lluniau o'u hamser yn Techniquet i:

DelythDragon@techniquet.org

Bydd Delyth yn dewis ei hoff e-bostion a ffotograffau a bydd y rhain yn cael eu harddangos yn Techniquet. Cofiwch chwilio amdanynt y tro nesaf y byddwch yn ymweld.



Pwy roddodd y jar
yma i mi?
Beth sydd ynddo?
Pam oedd ei angen
arnom?



Beth yw hwn?
Pa ffynonellau goleuni eraill
a welsom yn y sioe?
Allwch chi feddwl am rai
eraill?



Pa anifail yw hwn?
Allwch chi ei ddisgrifio?
Pa anifeiliaid eraill sy'n
dod allan yn y nos?



Pa anifail yw hwn?
Allwch chi ei ddisgrifio?
Sut mae'n symud?
Pa anifeiliaid eraill sy'n
symud fel hyn?

Coed Dwylo

Mae Delyth wrth ei bodd yn paentio. Gwnewch y gweithgaredd hwn gan ddefnyddio eich dwylo i baentio a chreu coedwig yn eich dosbarth.

Beth sydd ei angen arnoch:

- Papur brown
- Pinnau bawd
- Siswrn
- Taflen o bapur A4
- Paent mewn gwahanol liwiau, yn cynnwys brown, coch, gwyrdd, oren, gwyn
- Papur newydd i orchuddio'r bwrdd
- Ffedog

Cyngor gorau

Heriwch y disgyblion i gymysgu'r paent i greu'r lliwiau sydd eu hangen arnynt gan ddefnyddio coch, glas a melyn. Pa liwiau allan nhw eu gwneud?

Beth i'w wneud:

- Torrwch bedwar siâp boncyff coeden mawr o bapur brown a'u pinio i'r wal.
- Gorchuddiwch y byrddau gyda phapur newydd.
- Rhowch daflen o bapur A4 a phaent i bob disgybl.
- Dylai'r disgyblion wneud printiau dwylo â phaent ar y papur mewn gwahanol liwiau'r dail. Pa liwiau mae angen iddynt eu defnyddio?
- Gadewch i'r paent sychu.

- Gyda sisyrnau diogel, dylai'r disgyblion dorri o gwmpas eu printiau dwylo. Gall oedolyn wneud hyn os bydd angen help ar y disgyblion.
- Mae pob un o'r pedwar boncyff yn cynrychioli tymor gwahanol. All y disgyblion binio dail i'r coed i ddangos gwahanol dymhorau?
- Heriwch y disgyblion i feddwl am eitemau eraill ellid eu hychwanegu i'r coed. Er enghraifft, ffrwythau, blodau, eira, anifeiliaid, etc.



Rhyfeddodau'r Goedwig

Beth sydd ei angen arnoch:

- Gofod mawr agored



Beth i'w wneud:

- Mae'r plant yn symud o gwmpas y lle fel gwahanol anifeiliaid y coed: tylluan, cwningen, llygoden a lindysyn. Wrth i'r plant symud, dylent wneud y symudiadau i ddangos pa anifail maent yn ei ddynwared.
- Rhowch y cyfarwyddiadau i ddweud wrth y disgyblion pa anifail i'w ddynwared. Er enghraifft, defnyddiwch "Twit-twhw" i'w cael i symud fel tylluan. Defnyddiwch "Hop hop" i'w cael i symud fel cwningod. Defnyddiwch "Gwich gwich" i'w cael i symud fel llygod a defnyddiwch "llusg llusg" i'w cael i symud fel lindys.
- Gwaeddwch y cyfarwyddiadau hyn ar hap.
- Dylai disgyblion geisio symud o gwmpas gymaint o'r gofod â phosibl heb daro i mewn i'w gilydd.
- Wedi iddynt fod yn chwarae am ychydig, defnyddiwch yr ymadrodd "Gaeafgwsg" i'w cael i gyd i sefyll y llonydd fel delwau.



Gofynnwch i'r disgyblion:

- Pa mor hawdd oedd symud fel anifeiliaid gwahanol?
- Symudiadau pa anifail oedd yn cymryd y lle mwyaf?
- Symudiadau pa anifail oedd yn cymryd y lleiaf o le?
- Allwch chi feddwl am unrhyw anifeiliaid eraill o'r coed? Sut fuasech yn symud fel y rhain?

Hoff Anifail Nosol

Beth sydd ei angen arnoch:

- Papur
- Papur graff
- Pensil

Beth i'w wneud:

- Gwnewch arolwg o'ch gilydd i ganfod pa un yw hoff anifail y dosbarth sy'n dod allan yn y nos.
- Defnyddiwch dabl fel yr un isod i gadw cofnod o sylwadau'r disgyblion.
- Wedi i bawb gael ei holi, lluniwch graff o'r canlyniadau. Gall pob disgybl lunio graff neu gellir creu un mawr gan y dosbarth cyfan a'i binio i'r wal.

Hoff anifail nosol						
Nifer y disgyblion						

Gofynnwch i'r disgyblion:

- Am faint o wahanol anifeiliaid nosol y meddyliodd y dosbarth?
- Pa anifail nosol yw hoff un y dosbarth? Pam?
- Pa anifail nosol y mae'r dosbarth yn ei feddwl sydd fwyaf brawychus? Pam?
- Pa bethau eraill allwn ni eu gweld yn y nos? Heriwch y disgyblion i enwi cymaint o wahanol eitemau ag a allant.
- Beth mae'r disgyblion yn hoffi ei wneud gyda'r nos?
- Allan nhw greu graff o'r canlyniadau yn yr un modd ag a wnaethpwyd ar gyfer eu hoff fath o anifail y nos?



Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

	Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol	Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu	Datblygiad Mathemategol	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd	Datblygiad Corfforol	Datblygiad Creadigol
Sioe Rhyfeddodau'r Goedwig	✓	✓		✓	✓	
Lluniau Delyth o'r gweithdy	✓	✓		✓	✓	
Coed Dwylo - gweithgaredd ôl-weithdy		✓		✓	✓	✓
Rhyfeddodau'r Goedwig - gweithgaredd ôl-weithdy	✓	✓		✓	✓	
Hoff Anifail Nosol - gweithgaredd ôl- weithdy	✓	✓	✓	✓		✓